COVID-19 Update: 19th May

Here is the latest COVID-19 update from Cardiff Council, covering: funeral services return to 45 minutes in length; the latest on key worker childcare; extra pedestrian space for Wood Street; and a survey to help children and young people to tell Welsh Government how they've felt about lockdown.

Funeral services return to pre-COVID-19 timings

45 minute funeral services will be reinstated in Cardiff after twenty days where services were limited to 30 minutes.

Shorter services, on top of a move to hold funerals six days a week, were introduced to increase the number of funerals that could be held during the Covid-19 pandemic and ensure that the bereaved did not have an unduly long wait for a service to take place.

Cabinet Member with responsibility for Bereavement Services, Cllr Michael Michael said: “Our Bereavement Services team, and the many additional staff redeployed into the service, have done a fantastic job during what has been an incredibly challenging time.

“The compassion and professionalism with which they’ve handled the tragic realities of this Covid-19 outbreak deserve our thanks and recognition, but I know that, like all of us, the team will be pleased that we can once again offer people that little bit of extra time to mourn the passing of their loved ones.”

45 minute services will be reintroduced from May 26th.

Key worker Childcare

Cardiff is now operating 25 school hubs open across the city for the children of key workers, providing 20,000 hours of childcare per week.

The primary, secondary, special and early years hubs will be operating as usual over the half term break next week.

Key workers that are critical to the COVID-19 response are advised that childcare provision should only be used if there is no safe, alternative form of childcare available.

Provision is still being prioritised for health and social care workers (including those working in homeless hostels and Outreach) and in the emergency services however, the provision arrangements will now also aim to accommodate wider categories of keyworkers, where possible.

For more information about childcare for key workers please visit:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Emergency-Planning-and-Resilience/coronavirus-information/key-worker-childcare/Pages/default.aspx

Wood Street layout changes

Additional space is being made available for pedestrians to walk across Wood Street.

On Thursday, 21st May 21), 60 metres of road space will be removed from the carriageway by the hoardings for the new BBC Headquarters.

Please socially distance from others when you are out and about in Cardiff.

Nationwide survey of children and young people

There's a survey to help children and young people to tell Welsh Government how they've felt about lockdown: how it's impacted on their health; any worries they've had; how they think it might affect their education; and also any positives they've had from it. It's a joint survey from the Welsh Government, the Children's Commissioner for Wales, Youth Parliament for Wales / Senedd Ieuenctid Cymru and Children in Wales.

The survey has been developed and tested with children and young people. It will help Government to respond in the best way to the situation as it develops, and to inform how they work with and talk to children and young people during this crisis

and beyond. We need your help to ensure that as many children as possible have a chance to have their say.

Please note that the survey makes clear where children can seek help if they are affected by any of the topics in the survey.

It's likely to take children 15 minutes to complete and they can do it on any device by following the link. It closes on 27 May:
https://www.childcomwales.org.uk/coronavirusandme/

Diweddariad COVID-19: 19 Mai

Dyma'r wybodaeth COVID-19 ddiweddaraf gan Gyngor Caerdydd, yn ymdrin â: Bydd gwasanaethau angladd 45 munud yn cael eu cynnal unwaith eto; Gofal plant i weithwyr allweddol; Bydd Stryd Wood yn newid; a holiadur i helpu plant a phobl ifanc i ddweud wrth Lywodraeth Cymru am eu teimladau am gloi i lawr.

Gwasanaethau angladd yn dychwelyd i'r drefn cyn Covid19

Bydd gwasanaethau angladd 45 munud yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd unwaith eto ar ôl iddynt gael eu cyfyngu i 30 munud am ugain diwrnod.

Cyflwynwyd gwasanaethau byrrach, ar ben y penderfyniad i gynnal angladdau ar chwe diwrnod yr wythnos, i gynyddu nifer yr angladdau y gellid eu cynnal yn ystod y pandemig Covid-19 a sicrhau nad oedd angen i bobl mewn profedigaeth aros yn rhy hir am wasanaeth.

Dywedodd yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y Gwasanaethau Profedigaeth, y Cynghorydd Michael Michael: "Mae ein tîm Gwasanaethau Profedigaeth, a'r nifer o staff ychwanegol sydd wedi cael eu hadleoli i'r gwasanaeth, wedi gwneud gwaith gwych yn ystod cyfnod hynod heriol.

"Mae eu tosturi a'u proffesiynoldeb wrth ddelio â thrasiedi Covid-19 yn haeddu ein diolch a'n cydnabyddiaeth, ond fe wn i, fel pawb arall, y bydd y tîm yn falch ein bod unwaith eto'n gallu cynnig ychydig bach o amser ychwanegol i bobl gael galaru dros eu hanwyliaid."

Bydd gwasanaethau 45 munud yn cael eu hailgyflwyno o 26 Mai.

Gofal plant i weithwyr allweddol

Mae Caerdydd nawr yn gweithredu 25 canolfan ysgol sydd ar agor ledled y ddinas i blant gweithwyr allweddol, ac sydd wedi cynnig 20,000 o oriau o ofal plant yr wythnos ers i'r ysgolion gau yn y lle cyntaf.

Bydd y canolfannau cynradd, uwchradd, arbennig a blynyddoedd cynnar yn gweithredu yn ôl yr arfer dros y gwyliau hanner tymor yr wythnos nesaf.

Dylai gweithwyr allweddol sy'n hanfodol i'r ymateb i COVID-19 wybod mai dim ond os nad oes math diogel arall o ofal plant ar gael y dylid defnyddio darpariaeth gofal plant.

Mae'r ddarpariaeth yn dal i flaenoriaethu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn hosteli i'r digartref ac allgymorth) a'r gwasanaethau brys. Fodd bynnag, bydd y trefniadau nawr yn ceisio darparu ar gyfer categorïau ehangach o weithwyr allweddol hefyd, lle bo modd.

I gael rhagor o wybodaeth am ofal plant i weithwyr allweddol ewch I: http://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Cynllunio-at-Argyfwng-a-Gwydnwch/gwybodaeth-ynghylch-coronafeirws/gofal-plant-i-weithwyr-allweddol/Pages/default.aspx

Bydd Stryd Wood yn newid

Mae lle ychwanegol yn cael ei wneud i gerddwyr gerdded ar draws Stryd Wood.

Ar ddydd Iau. 21 Mai, caiff 60 metr o le ar y ffordd ei dynnu o'r ffordd gerbydau wrth yr hysbysfyrddau ar gyfer y Pencadlysoedd BBC newydd.

Cofiwch ymarfer ymbellhau cymdeithasol wrth gerdded o gwmpas Caerdydd.

Holiadur cenedlaethol i blant a phobl ifanc

Mae na holiadur pwysig iawn i helpu plant a phobl ifanc i ddweud wrth Llywodraeth Cymru am eu teimladau ynglyn â'r lockdown: sut mae hyn wedi amharu ar eu hiechyd, unrhyw bryderon sydd ganddynt; a'r effeithiau posib ar eu haddysg, ac hefyd unrhyw deimladau cadarnhaol sydd ganddynt o'r profiad hyn. Datblygwyd hyn ar y cyd rhwng Lywodraeth Cymru, Senedd Ieuenctid Cymru a Phlant yng Nghymru.

Mae'r holiadur wedi cael ei ddatblygu a'i wirio gan blant a phobl ifanc. Bydd y holiadur yn helpu'r Llywodraeth i ymateb wrth i'r sefyllfa ddatblygu yn y ffordd orau posib, ac i wybod sut i siarad ac i gyd-weithio â phlant a phobl ifanc yn ystod a thu hwnt i'r argyfwng yma.
Rydyn ni angen eich help er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc ar draws Cymru yn cael y cyfle i ddweud eu dweud.

Mae'n bwysig nodi bod yr holiadur yn helpu plant i gael help os ydy elfennau ohonno yn achosi iddyn nhw i boeni neu teimlo'n isel.

Disgwylir iddo gymryd 15 munud i'w gwblhau ac mae'n bosib i'w wneud ar unrhyw ddyfais wrth ddilyn y ddolen. Bydd yn cau ar y 27ain o Fai.
Gweler y holiadur yma:
https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirwsafi/